

Llwyddiant ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn Sir Gaerfyrddin wedi llwyddo i ennill Gwobr Efydd Buddsoddwyr Mewn Gofalwyr; sef cynllun sy'n cael ei gyflwyno gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn cael ei gefnogi gan ei awdurdod lleol a phartneriaid trydydd sector yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.



Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn falch iawn o ennill Gwobr Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Drwy gymryd rhan yn y cynllun, datblygodd aelodau'r tîm eu hymwybyddiaeth o Ofalwyr a'u dulliau o gefnogi teuluoedd. Dywedodd Yvonne Hutchinson-Ruff, Rheolwr y Tîm o Amgylch y Teulu: 'mae'r tîm yn ddiolchgar i Dolan Thomas am gymryd yr awenau o ran datblygu'r arferion gorau a chasglu tystiolaeth ar gyfer y wobr.' Bydd y Tîm o Amgylch y Teulu yn parhau i nodi a chefnogi Gofalwyr yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r **Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)** yn ffordd o ddod â phobl ynghyd i gefnogi teuluoedd i wneud gwahaniaeth drwy sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Nid Gwasanaeth Statudol yw'r Tîm o Amgylch y Teulu sy'n golygu na fyddwch yn gweithio gyda Gweithiwr Cymdeithasol a gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg. Gall y Tîm o Amgylch y Teulu ddarparu cymorth a chefnogaeth o ran pob math o bryderon ynghylch yr ysgol ac addysg, ymddygiad, iechyd, tai ac ati.

Cafodd y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ei lunio'n wreiddiol i helpu cyfleusterau iechyd megis practisau meddygon teulu, meysydd mewn ysbytai a sefydliadau eraill i ganolbwyntio ar eu hymwybyddiaeth o ofalwyr a gwella'r ymwybyddiaeth honno, yn ogystal â gwella'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn eu rhoi i ofalwyr o bob oedran. Mae'r cynllun hefyd ar gael ar gyfer sefydliadau trydydd sector ac eraill i helpu i nodi a chyfeirio gofalwyr.

Ystyr gofalwr yw rhywun o unrhyw oedran sy'n rhoi cymorth di-dâl i aelodau o'r teulu neu ffrindiau na fyddai'n gallu dygymod heb y cymorth hwn. Gallai hyn gynnwys gofalu am berthynas, cymar neu ffrind sy'n sâl, yn fregus, yn anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Gall unrhyw un ddod yn ofalwr; yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw unigolyn yn dewis dod yn ofalwr, mae'r sefyllfa'n digwydd o ran ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr neu i gael cyngor ar gyfer gofalwyr, ewch i: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/tudalen/58086> neu anfonwch neges e-bost at carersteam.hdd@wales.nhs.uk.

